DATGANIAD WEXFORD:

Gan gydnabod Argymhelliad Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM) yr UE ac yng nghyd-destun egwyddor sybsidiaredd, anogir llywodraethau i gefnogi grymuso cymunedau lleol, gan gynnwys llywodraeth leol, i ddiogelu cynaliadwyedd lleol yr amgylchedd arfordirol a morol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd prif weithredoedd yn cynnwys mesurau i:

1. **Ennyn diddordeb cymunedau lleol mewn llunio polisi arfordirol ac mewn mabwysiadu arferion rheoli lleol cyfrifol.**

2. **Cael cefnogaeth y llywodraeth ar gyfer datblygu a gweithredu rhaglenni ICZM, gan gynnwys rhaglenni cenedlaethol, sy'n hybu gweithredoedd lleol ac yn darparu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol.**

3. **Codi ymwybyddiaeth, parch a dealltwriaeth y cyhoedd am yr amgylchedd arfordirol, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, hanesyddol, diwylliannol ac economaidd gymdeithasol, a materion perthnasol.**

4. **Rhannu profiadau a hyrwyddo arfer gorau wrth weithredu mentrau rheoli lleol sy'n seiliedig yn y gymuned.**

5. **Hwyluso cyfathrebu a chydweithredu rhwng rhanddeiliaid arfordirol mewn cydnabyddiaeth o'r buddiannau amgylcheddol, economaidd gymdeithasol a diwylliannol o reolaeth integredig.**

6. **Cefnogi a hyrwyddo rhwydweithiau arfordirol wrth gyflawni ICZM ar bob lefel.**